Cofnodion Cyfarfod 14 Ionawr 2014 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.

YN BRESENNOL

Ken Brown (KB)	Daniel Williams (DW)
Sian Gwenllian (TG)	Pat Jones (PJ)
Lena Ashley (LA)	Iestyn Harris (IH)
Sarah Riley (SR)	Pat Jones (PJ)
Gwyneth Williams (GW)	Lousie Hughes (LH)
Bethan Jones (BJ)	Nerys John (NJ)
Wynne Barton – Swyddog Arianol	

1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd Gwyneth Williams aelod newydd y Cyngor Cymuned. Croesawodd y Cadeirydd Gwyn Mosley Swyddog a Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno Cyflwyniad am fabwysiadau Cynllun Llifogydd Cymunedol.	
1.2	Amcan y cyflwyniad oedd esbonio beth yw'r Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd a sut mae cofrestru i'w dderbyn. Esbonio beth yw Cynllun Llifogydd Cymunedol a sut gall y cynllun helpu i leihau effaith llifogydd ar y gymuned cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd ac i esbonio beth yw Warden Llifogydd. Cyn y byddai cynllun yn gallu cael ei fabwysiadu roedd angen dod o hyd i wirfoddolwyr a fyddai yn barod i fod yn wardeiniaid llifogydd. **Penderfynwyd trafod y mater ymhellach mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor Cymuned. Y Clerc i drefnu.** Diolchodd y Cadeirydd i Gwyn Mosley am ei amser a'r wybodaeth. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Daniel Williams a'r Cynghorydd Iestyn Harris am eu gwaith a'r goleuadau Nadolig. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn gwybodaeth bod llygod mawr yn bodoli yn y Maes Parcio a Stryd Bangor a bod y mater yn nwylo'r uned Iechyd yr Amgylchedd. Hefyd roedd wedi derbyn cwynion bod yr elyrch yn ymosod a phobl ger y traeth a'r ffordd. Penderfynwyd gofyn i'r clerc anfon at Gyngor Gwynedd i wneud cais am arwyddion gwahardd bwydo'r elyrch. Mae difrod yn cael ei wneud i'r tir glas ger y maes parcio ar y traeth gan gerbydau yn troi. Gofynnwyd i'r clerc anfon ar yr uned briodol yng Nghyngor Gwynedd i ofyn oes modd codi fwy o folardiau i nadu'r ymarferiad hwn. **Ymddiheuriadau:** Hywel V Jones, George Smith	**CLERC** **CLERC** **CLERC**
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	

	Derbyniwyd ffurflen hysbysiad o fuddiant personol yr aelodau ar gyfer eitem 5.0.	
3.0	**COFNODION**	
	Cyflwynwyd cofnodion 10fed Rhagfyr 2013 **Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir.**	
4.0	**MATERION YN CODI**	
4.1	**Cerrig yr Afon** - dal i ddisgwyl gwybodaeth ynglŷn â pha bryd y bydd y golau yn ei le.	
4.2	**Cerdded a Darganfod** - Cynghorydd Nerys John wedi derbyn ychydig o wybodaeth ynglŷn â chymorth ariannol. Bydd cyfarfod arall maes o law. Hysbyswyd y Cyngor bod blwyddyn o gymorth ariannol i gyflogi Gareth Roberts yn prysur ddod i ben.	
4.3	**Llwybr Rowen** - Manylion Adeiladau wedi derbyn oddi wrth Cyngor Gwynedd. Copi wedi ei chyflwyno i Cynghorydd Daniel Williams.	
4.4	**Ger y Nant** - Dywedodd y Cynghorydd Sir bod newidiadu personnel wedi bod a hynny oedd rheswm pam nad oedd y gwaith ar y ffordd wedi ei gwblhau ond bellach mae'r gwaith ar dro. Mae cyflwr y ffordd rhwng Y Felinheli a Bethel yn ddifrifol. **Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd ynglŷn â hyn.**	**CLERC**
5.0	**ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
5.1	Mae angen ystyried rheolaeth y neuadd; mae angen edrych ar rai opsiynau. Cyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r Neuadd i'w drefnu.	**IH**
5.1	Bydd Cyngerdd ar yr 28 o Chwefror 2014 gydag Elin Fflur a Dafydd Iwan er mwyn codi arian at yr elusen Gafael Llaw. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â safon sain acwstig y neuadd. **Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams y byddai yn gwneud ymholiadau ar y mater**. **Penderfynwyd hefyd na fyddau costau llogi'r neuadd yn cael eu codi.**	**DW**
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Rhagfyr 2013	
8.0	**PRECEPT**	
8.1	Derbyniwyd llythyr y precept oddi wrth Cyngor Gwynedd. Rhoddodd y Swyddog Ariannol adroddiad ynglŷn â'r precept. Roedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn grant o £3k ers rhai blynyddoedd ac eleni nid oedd ar gael. Roedd trefniadau mewn llaw eisoes ar gyfer delio a hyn. Awgrymodd y Swyddog Ariannol bod y precept am eleni yn ddigonol ac nid oedd angen ei godi. Dangosodd y Cyngor eu bod yn unfrydol a derbyn yr awgrymiad.	

9.0	**GOHEBIAETH**	
9.1	Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd – Cadarnhau gorchymyn Llwybr 10	
9.2	Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd - Ymgynghoriad ynglŷn â chreu Llwybr wrth y Marina. Y Cyngor yn unfrydol a derbyn bwriad i greu llwybr.	
9.3	Adran Rheoleiddio Cyngor Gwynedd - Ymgynghoriad Cyhoeddus Ynni Gwynt. Dim sylwadau.	
10.0	**ADRODDIAD Y CLOC**	
10.1	Ar hyn o bryd nid yw'r cloc yn gweithio mae hyn oherwydd bod dŵr wedi mynd i mewn i'r cloc ac wedi amharu a'r cyflenwad trydan. Mae angen edrych os oes angen gwasanaeth trydanwr. Cynghorydd Iestyn Harris a Daniel Williams i archwilio.	**IH/DW**
11.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
11.1	**C13/1295/20/HY** - cais rhan ol-withredol i gadw hysbyseb presennol ynghyd a chodi strwythur to bwriadedig uwchben yr hysbyseb - Tir ger mynedfa i Port Dinorwig Y Felinheli. **Cadw'r gwrthwynebiad yn unol â'r cais blaenorol.**	
11.2	**C13/1205/20/LL** - cais llawn i godi 6 tŷ newydd i gynnwys 4 ty deulawr 2 lloft a 2 dy un llawr 2 lloft, creu mynedfa a ffordd gerbydol a thirlunio - tir ger Y Wern Y Felinheli - **Cadw'r sylwadau yn unol â'r cais blaenorol.**	
12.0	**ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT**	
12.1	Mae ychydig o lanast yn y fynwent oherwydd y gwynt a'r glaw ac mae'r fainc wedi ei symud ychydig oherwydd y gwynt.	
13.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
13.1	Mae problemau parcio/ mynedfa yn parhau yn y maes parcio. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Ms Lynne Edwards yn cwyno am y trafferthion mae hi a'i chymdogion yn cael oherwydd bod cerbydau yn parcio'n flêr ac yn rhwystro mynediad i ffordd gefn eu heiddo. **Y Clerc i gydnabod derbyn y llythyr ac i anfon at Gyngor Gwynedd am gyngor ac ymweliad safle gan Swyddog o'r Uned Parcio**.	**CLERC**
13.2	Mae dail a mieri angen eu codi oddi ar y Lon Las gan eu bod yn gwneud y llwybr yn llithrig i gerddwyr. **Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd ynglŷn â hyn a'r Cadeirydd i ofyn i'r contractwr i dorri o amgylch y Zig Zag**.	**CLERC KB**
13.3	Mae fandaliaeth yn dal i fodoli o fewn y Maes Parcio, mae'r golau stryd ar wal y Boat house wedi torri. Cafwyd ychydig o drafodaeth ynglŷn â CCTV a bod y mater yma wedi bod ar yr agenda eisoes ac nad oedd datblygiad wedi bod ar y mater. Dywedodd y Cynghorydd Gwyneth Williams y byddai yn trafod y mater gyda Chyngor Gwynedd. **Y Clerc i adrodd i Adran Golau Stryd Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r**	**GW** **CLERC**

	golau.	
14.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
14.1	Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cael llythyrau yn cwyno am lwybr cefnau tai. Cafwyd llythyr oddi wrth Mr & Mrs Evans Siop Londis, Mrs Nancy Price a Mr I Lewis a Miss A Griffiths. Trafodwyd y mater ynglŷn â pherchnogaeth a materion hanesyddol y llwybr. Dywedwyd bod ffens wedi ei hadeiladau wrth y crash barrier a bod wal gynnal wedi ei dymchwel. **Y Clerc i anfon cydnabyddiaeth i'r llythyrau sydd wedi eu derbyn ac anfon at Gyngor Gwynedd am eu sylwadau.**	**CLERC**
15.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
15.1	Roedd trafferthion wedi codi bod dim digon o seddi wedi bod ar y bysiau ysgol i holl ddisgyblion Ysgol Tryfan o'r Felinheli, bellach mae hyn wedi ei ddatrys a bod Bysiau Berwyn bellach yn cludo'r disgyblion.	
15.2	Mae cais cynllunio codi tai yn y Wern wedi ei gymeradwyo	
15.3	Mae'r Felin sgwrsio yn dathlu ei phen-blwydd yn 5 oed eleni.	
15.4	Dywedodd y Cynghorydd Sir ei bod wedi derbyn gwahoddiad i siarad yn erbyn y peilonau mewn cyfarfod cyhoeddus y Llanfairpwll.	
15.5	Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir at y broblem oedd wedi codi ynglŷn â presgripsiwn Cymraeg ond nid oedd yn fater i'w drafod o fewn y Cyngor Cymuned.	
15.6	Cyfeiriodd y Cynghorydd dod angen cyfarfod arbennig i drafod y Cynllun Llifogydd Cymunedol. Penderfynwyd byddai cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal ar gyfer y Cyngor Cymuned ar y 28 o Ionawr 2014 yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr.	
16.0	**UNRHYW FATER ARALL**	
	Dim	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 9:45 yn yr hwyr.	

Llofnod:	Dyddiad:

Cofnodion Cyfarfod Arbennig 28 Ionawr 2014 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 6:30 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown (KB)	Daniel Williams (DW)	
Siân Gwenllïan (TG)	Nerys John (NJ)	
George Smith (GS)	Louise Hughes (LH)	
Pat Jones (PJ)		
1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
1.1	Croesawodd yr Is-Gadeirydd Gadeirydd Daniel Williams yr Aelodau i'r cyfarfod arbennig. Eglurodd bod y cyfarfod wedi ei alw ar gyfer ystyried ardaloedd a gwardeiniaid ar gyfer y Cynllun Llifogydd Cymunedol. Dywedodd bod Gwyn Mosely yn mynychu am 7:30 ond yn y cyfamser roedd angen ystyried y ceisiadau cynllunio oedd wedi dod i law a bod angen anfon sylwadau arnynt a bod dyddiad cyfarfod arferol y Cyngor rhy hwyr i'r perwyl hyn.	
2.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
2.1	**C13/1288/20/LL** – Codi tŷ deulawr newydd ynghyd a chreu mynedfa gerbydol newydd – tir yn Halfway House Y Felinheli, LL56 4JQ – **Gwrthwynebu**: Mae'r safle yn ddelfrydol ar gyfer codi byngalo a fyddai o fudd teulu a phersonau anabledd, efallai byddai'r tir yn gweddu i fwy nag un annedd a fyddai o fudd anghenion pobl leol.	
2.2	**C13/1287/20/LL** – Codi 3 tŷ deulawr ynghyd a mynedfa gerbydol a mynedfa droed newydd – Tir yn Halfway House, Y Felinheli, LL56 4JQ- **Gwrthwynebu**: Nid yw'r manylion sydd wedi ei dderbyn i weld yn gyflawn. Mae'r papurau Simon Hall Assessment yn cyfeirio at 9 tŷ a'r cais cynllunio yn cyfeirio at 3. Gwrthwynebir ar y manylion i law. Mae prinder tai lleol yn bodoli o fewn y pentref ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio, pobol ac iechyd bregus, anableddau a theuluoedd ifanc. Gyda'r demograffig yn newid credir nad yw'r ddau gais yn rhoi ystyriaeth ddigonol i hyn. Mae hawl cynllunio eisoes yn bodoli gyferbyn a'r Halfway House i adeiladu 7 a 19 o dai. Credir byddai rhoddi hawl cynllunio ychwanegol yn y rhan yma o'r pentref yn orr-ddatblygiad. Roedd y Cyngor o'r farn dylai Amod 106 fod wedi ei roi ar y cais.	
2.3	**C14/0026/20/LL** – Newid defnydd swyddfeydd presennol i fwyty ynghyd a gosod estyniad balcony wedi ei amgau ar y blaen – N W S Dock Management Ltd, Posr Dinorwic Marina, Y Felinheli Gwynedd LL56 4JN – **Dim Gwrthwynebiad**. **Y Clerc i anfon ymlaen at Adain Gynllunio Cyngor Gwynedd.**	**CLERC**

3.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Cafwyd esboniad ehangach ynglŷn â sut mae'r cynllun yn cael ei weithredu. Gan ddefnyddio cynllun o'r Felinheli fe ddangoswyd arno'r yr ardal sydd wedi ei gydnabod o risg i lifogydd. Fe rannwyd yr ardal yma i bedwar. Y pedwar ardal yma fydd angen wardeiniaid. Roedd angen Brif Warden ar gyfer cyd-lynu'r cynllun. Fe benderfynwyd y byddai'r Cynghorydd Daniel Williams yn gweithredu fel Prif Warden. Byddai hefyd yn cyfathrebu a'r perchnogion lle'r oedd eu heiddo o fewn yr ardaloedd er mwyn eu hysbysu o'r cynllun, sut i gofrestru am wybodaeth a rhybuddion ynghyd a dod o hyd i wardeiniaid. Cynghorydd Daniel Williams i gadw cysylltiad â Gwyn Mosely er mwyn symud ymlaen a'r cynllun.	**DW**
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 9:45 yn yr hwyr.	
Llofnod:	Dyddiad:	